WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cyhoeddwyd: Mehefin 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 114A2016



Lluniwyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry, Samantha Clements a Catryn Holzinger o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r adroddiad hwn | 4 |
| Gwaith archwilio perfformiad 2015-16 | 5 |
| Mae'r Cyngor wedi parhau i wella yn ei feysydd â blaenoriaeth, mae ganddo drefn gadarn ar gyfer rheoli arian, ac mae ei drefniadau'n debygol o gefnogi cynnydd yn y dyfodol | 6 |
| Cynigion ar gyfer gwella | 7 |

## Adroddiad manwl

| | |
|---|---|
| Perfformiad | 9 |
| Defnydd o adnoddau | 13 |
| Llywodraethu | 15 |

## Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwnt | 17 |
| Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2015-16 Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | 18 |
| Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad 2014-15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | 20 |
| Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot 2014-15 | 22 |

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) hwn yn rhoi crynodeb o'r gwaith archwilio a gyflawnwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor), ers cyhoeddi'r Asesiad Corfforaethol a'r AGB cyfunol ym mis Tachwedd 2014. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o brif ganfyddiadau 'rheoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad hwn yn rhoi adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd gan gyrff adolygu allanol perthnasol o fewn y Cyngor ac, oni nodir fel arall, maent yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gyflawnwyd y gwaith hwnnw.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi yn ei adroddiad a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried y datganiad hwn yn ddatganiad pendant ynghylch sefyllfa'r sefydliad, nac yn rhagfynegiad o'i lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn, i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Cewch rannu eich safbwyntiau â ni drwy anfon e-bost atom yn info@audit.wales neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Gwaith archwilio perfformiad 2015-16

5 Wrth bennu ehangder y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ystyriwyd y cyfoeth o wybodaeth a gasglwyd yn sgil archwiliadau ac arolygiadau yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys mecanweithiau'r Cyngor ei hun i adolygu a gwerthuso. Yn ystod 2015-16, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru waith asesu gwella o dan dair thema: defnydd o adnoddau; llywodraethu; a pherfformiad.

6 Nodir isod y gwaith a gyflawnwyd ers yr AGB diwethaf, gan gynnwys gwaith 'rheoleiddwyr perthnasol'.

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau |
|---|---|---|
| Astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru: Cyflawni â Llai - Iechyd yr Amgylchedd | Adolygiad Cymru gyfan o effaith pwysau ariannol ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a dinasyddion. | Ionawr 2015 |
| Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Drefniadau Craffu | Adolygiad dilynol er mwyn asesu newidiadau i drefniadau craffu'r Cyngor, lle canfuwyd bod gwelliannau'n cael eu cynnal. | Gorffennaf, 2015 |
| Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Drefniadau Rheoli Perfformiad | Adolygiad dilynol o effeithiolrwydd dull y Cyngor o werthuso ac adrodd am berfformiad. Canfuwyd yn ein hadroddiad bod y Cyngor yn gwneud cynnydd. Yr oedd yn cynnwys tri chynnig ar gyfer gwella y mae'r Cyngor yn eu gweithredu. | Mehefin 2015 |
| Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Drefniadau Rheoli Risg | Asesiad o effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli risg, lle nodwyd gwendidau. Roedd yr asesiad yn cynnwys dau gynnig ar gyfer gwella y mae'r Cyngor yn eu gweithredu. | Tachwedd 2015 |
| Asesiad Cydnerthedd Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a'r modd y mae'n cyllidebu ac yn cyflawni'r arbedion gofynnol. Mae'r adroddiad yn cynnwys tri chynnig ar gyfer gwella, sy'n cael ei hystyried gan y Cyngor. | Mawrth 2016 |
| Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o'r cynlluniau y mae'r Cyngor wedi'u cyhoeddi er mwyn cyflawni amcanion gwella a oedd yn cadarnhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion statudol. | Mai 2015 |
| Archwiliad 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o'r asesiad o berfformiad a gyhoeddwyd gan y Cyngor, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad a oedd yn cadarnhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion statudol. | Tachwedd 2015 |

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau |
|---|---|---|
| Archwiliad o Gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o ddatganiadau ariannol y Cyngor, a gasglai fod y datganiadau'n rhoi safbwynt cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor, ac o'i wariant a'i incwm ar gyfer y flwyddyn. | Tachwedd 2015 |
| Adroddiad Arolygu Gwasanaethau Plant AGGCC | Arolygiad AGGCC o Wasanaethau Cymdeithasol Plant er mwyn asesu a ellid codi'r protocol Pryderon Difrifol a weithredwyd ym mis Tachwedd 2012. Casgliad yr arolygiad oedd y dylid codi'r protocol hwnnw. | Ebrill 2015 |
| Adroddiad Gwerthuso Perfformiad AGGCC 2014-15 | Adolygiad AGGCC o berfformiad y Cyngor o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant. | Hydref 2015 |
| Adolygiad Comisiynydd y Gymraeg | Adolygiad o'r graddau y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Casgliad yr adolygiad oedd bod y Cyngor wedi cyflwyno gwelliannau i'w ddarpariaeth o ran deunydd a hyfforddiant Cymraeg, a mynediad at staff sy'n siarad Cymraeg, ond bod angen gwneud mwy o waith i gydymffurfio â darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg. | Chwefror 2015 |

## Mae'r Cyngor wedi parhau i wella yn ei feysydd â blaenoriaeth, mae'r drefn sydd ganddo ar gyfer rheoli arian yn gadarn, ac mae ei drefniadau'n debygol o gefnogi cynnydd yn y dyfodol

7 Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, a hynny yn unig, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur a sicrhau gwelliannau yn ystod 2016-17. Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a mae'r Cyngor yn sicrhau gwelliant yn erbyn ei flaenoriaethau corfforaethol ac yn parhau i wella ei drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli perfformiad; ac

b mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn gadarn, er y bydd angen datblygu cynlluniau arbed ar gyfer y tymor canolig, a'u hintegreiddio'n llawnach â'r broses cynllunio corfforaethol.

## Cynigion ar gyfer gwella

8 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Cyngor a'r heriau o'i flaen, byddai'n anarferol pe na baem yn cael hyd i agweddau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- a wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddwn yn disgwyl iddo weithredu arnynt ac yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd;
- b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

9 Ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Mae amrywiaeth o faterion is eu blaenoriaeth, a elwir yn 'gynigion ar gyfer gwella', wedi'u cynnwys yn ein hadroddiadau eraill. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd cyfanswm o wyth cynnig ar gyfer gwella gennym, mewn tri adroddiad. Mae'r Cyngor yn gweithredu pump o'r cynigion hyn ac ar ganol ystyried y tri chynnig a wnaed yn ein hadroddiad diweddaraf. Byddwn yn parhau i fonitro'r broses o weithredu cynigion ar gyfer gwella wrth gyflawni ein gwaith archwilio perfformiad yn y dyfodol.

# Adroddiad manwl



# Perfformiad

Mae'r Cyngor yn sicrhau gwelliant yn erbyn ei flaenoriaethau corfforaethol. Er bod perfformiad cyffredinol, fel y'i mesurir gan ddangosyddion cenedlaethol, wedi dirywio o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, mae'r perfformiad hwnnw'n dal yn well na chyfartaledd Cymru ym mwy na hanner y dangosyddion

10 Mae Llywodraeth Cymru'n gofyn bod pob cyngor yn adrodd ar gyfres gyffredin o ddangosyddion er mwyn galluogi cymhariaeth â pherfformiad mewn meysydd gwasanaeth allweddol ledled Cymru. Mae deg ar hugain o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol wedi cael eu pennu i gyd-fynd â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ym maes addysg, gofal cymdeithasol a rheoli gwastraff. Ar gyfer 2014-15, ceir hefyd 13 o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MACau) a ddewiswyd i adlewyrchu materion pwysig fel cefnogaeth i ofalwyr, presenoldeb mewn ysgolion a chyflwr priffyrdd.

11 Mae'n ofynnol i gynghorau hefyd bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Nodir y rhain yng Nghynllun Gwella Corfforaethol y Cyngor 'Ymateb i'r Her' 2015-2018. Maent yn cynrychioli chwe maes lle mae'r Cyngor wedi penderfynu amddiffyn buddsoddiad neu gyfyngu ar ostyngiadau mewn gwariant er mwyn cadw oddi mewn i'r gyllideb. Er gwaethaf y gostyngiadau hyn mewn gwariant, mae'r Cyngor wedi sicrhau'r gwelliannau canlynol, er enghraifft:

a canlyniadau i blant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal - yn 2014-15, llwyddodd i sicrhau gostyngiad o 7.3 y cant yn nifer y plant a oedd yn derbyn gofal, o gymharu a 4.8 y cant y flwyddyn gynt,

b er mwyn codi safonau addysgol a chyrhaeddiad pob unigolyn ifanc, llwyddodd y Cyngor i ostwng nifer y bobl ifanc hynny 'nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant' (NEET) yn 2014-15 i 3.8 y cant, gwelliant o gymharu â 4.4 y cant y flwyddyn gynt; ac

c er mwyn sicrhau bod cymaint ag sy'n bosibl o oedolion yn gallu byw yn annibynnol, mewn cartref o'u dewis yn y gymuned, rhoddodd y Cyngor gefnogaeth i 810 o oedolion ychwanegol, gan olygu bod cyfanswm o 3,070 o bobl yn derbyn cefnogaeth ar gyfer hynny.

12 Dangosai perfformiad yn 2014-15 fod 57 y cant o'r mesurau perfformiad yn well na ffigur Cymru Gyfan, sy'n is na pherfformiad y llynedd, sef 63 y cant. Er y cafwyd y perfformiad gorau posib, neu welliant ym mherfformiad 63 y cant o'r mesurau cenedlaethol, mae hyn yn is na pherfformiad y llynedd, sef 79 y cant.

## Llwyddodd y Cyngor i wneud cynnydd o ran gweithredu ei fframwaith perfformiad corfforaethol newydd, ac roedd yn parhau i ganolbwyntio ar welliannau wrth adrodd am berfformiad a chynllunio busnes gwasanaethau

13 Yn ein Hasesiad Corfforaethol yn 2014, canfuwyd anghysondebau o ran cynllunio busnes gwasanaethau, a diffyg cyswllt rhwng blaenoriaethau strategol, gweithgarwch cyfarwyddiaethau a pherfformiad unigolion. Un o gynigion gwella'r asesiad oedd y dylai'r Cyngor weithredu'r gwelliannau yr oedd wedi'u cynllunio wrth adrodd ar berfformiad. Nod y gwelliannau hynny oedd cyfuno gwybodaeth i'w alluogi i werthuso a oedd yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau. Cynhaliom felly adolygiad pellach yn 2015 er mwyn asesu a oedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth weithredu'r trefniadau newydd hyn.

14 Gwelsom fod y Cyngor wedi gwella'r fframwaith cynllunio perfformiad, wedi cefnogi proses ar gyfer cyflwyno canllawiau cynllunio busnes clir a thempled o gerdyn adrodd er mwyn cyfuno gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau a mesurau corfforaethol sy'n gysylltiedig ag adnoddau. Mae'r tîm corfforaethol sy'n gyfrifol am ddylunio'r broses wedi ymgysylltu'n agos â'r rheolwyr, ac fe gafwyd ymrwymiad i ddefnyddio'r prosesau newydd.

15 Mae'r cymorth a'r arweiniad hwn wedi arwain at fwy o gysondeb wrth gynllunio gwasanaethau, er bod lle o hyd i barhau i fireinio cynlluniau busnes, yn unol â disgwyliadau corfforaethol. Cyflwynwyd y cardiau adrodd ar ar ôl y cynlluniau busnes, ac nid ydynt wedi'u sefydlu mor dda. Wrth iddynt gael eu hymwreiddio, dylid canolbwyntio ar barhau i ddatblygu'r ystod o wybodaeth, gan sicrhau bod y naratif cefnogol o natur gwerthusol, a bod cysylltiadau clir yn cael eu creu rhwng blaenoriaethau, camau gweithredu a mesurau,

16 Mae'r cardiau adrodd ymhlith y dulliau a ddefnyddir gan y Cyngor i ddechrau gwella'r modd y cyflwynir gwybodaeth am berfformiad, er mwyn cefnogi'r broses benderfynu a chraffu. Yn ogystal â hyn, bydd y 'cerdyn adrodd corfforaethol' sydd newydd ei ddatblygu yn rhoi trosolwg o'r cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud tuag at flaenoriaethau corfforaethol allweddol, a bydd y 'ganolfan berfformiad' newydd ar-lein yn gwella'r wybodaeth a ddarperir am berfformiad i ystod o gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, bydd angen i'r Cyngor ystyried sut i gydgysylltu'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi'r gefnogaeth orau ar gyfer penderfynu a chraffu. Ar ben hynny, bydd angen iddo gynnal adolygiad er mwyn canfod a oes bwlch yn yr wybodaeth a ddarperir ar lefel cyfarwyddiaeth neu bortffolio, a chynnal adolygiad hefyd o'r modd y mae'n rhoi darlun cyffredinol o wybodaeth am berfformiad corfforaethol, a gwybodaeth ehangach am berfformiad, i'r Cabinet a Grŵp y Cyfarwyddwyr Corfforaethol.

17 Arweiniodd yr adolygiad at dri chynnig ar gyfer gwella, a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Ers cynnal yr adolygiad, rydym wedi gweld cynnydd o ran gweithredu'r cynigion, a gwaith pellach i fireinio ei drefniadau rheoli perfformiad, sy'n parhau.

## Allbynnau o’r rhaglen Astudiaethau Llywodraeth Leol

18 Yn ystod 2014-15, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol astudiaeth o wasanaethau iechyd yr amgylchedd ledled Cymru. Cyflwynwyd ein hadroddiad cryno lleol i’r Cyngor ym mis Ionawr 2015, a gwelsom fod y Cyngor ar y cyfan yn cyflenwi Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd ar lefel uwch na’r lefelau gofynnol, gyda llai o staff, a chan sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

19 Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar y graddau yr oedd cynghorau’n llwyddo i reoli effaith Deddf Diwygio Lles 2012. Canfu ein hadolygiad fod y Cyngor yn monitro lefel y Taliadau Tai Dewisol, a’r rheswm dros ddyfarnu’r taliadau hynny, ond nid oedd yn gallu canfod beth oedd eu heffaith na’r modd yr oedd y taliadau’n cyfrannu at bolisi’r Cyngor cyfan ar gyfer Diwygio Lles.

## Ystyriai Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod y Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd wrth gyflawni ei gynllun gwella strategol, ac fe gododd y Protocol Pryderon Difrifol yr oedd wedi’i weithredu’n gysylltiedig â’r gwasanaethau plant

20 Y mis Chwefror 2015, cwblhaodd AGGCC arolygiad llawn o adran Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc y Cyngor, ac adroddwyd y canlyniad ar 23 Ebrill 2015. O ganlyniad i’r gwelliannau sylweddol a gafwyd dros y ddwy flynedd diwethaf, cyhoeddodd Prif Arolygydd AGGCC fod y Protocol Pryderon Difrifol wedi’i godi o’r adran.

21 Cyhoeddodd AGGCC ei Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2014-2015 ym mis Hydref 2015. Mae’r adroddiad yn cynnwys canfyddiadau manwl ynghyd â chydnabyddiaeth o lwyddiant a meysydd ar gyfer gwella, ac ar gael ar wefan AGGCC.

22 Ystyriai AGGCC fod y gwerthusiad a gynhaliwyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ei hun yn amlygu llwyddiannau a heriau yn ystod y flwyddyn, ac yn pennu blaenoriaethau’r Cyngor ar gyfer 2014-15. Roedd AGGCC o’r farn y gallai’r Cyngor arddangos arweinyddiaeth ymroddedig, bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran cyflawni ei gynllun gwella strategol, a’i fod yn realistig ynghylch yr heriau’n gysylltiedig â gwella gwasanaethau wrth i arian brinhau.

## Llwyddodd y Cyngor i wella ei ddarpariaeth o ran deunydd a hyfforddiant Cymraeg, a mynediad at staff Cymraeg, ond roedd angen gwneud mwy o waith i gydymffurfio â darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg

23 Cafodd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) ei chreu yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ar ddiwedd 31 Mawrth 2015, daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau drwy is-ddeddfwriaeth. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd pwerau a etifeddwyd yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

24 Mae'r Comisiynydd yn cydweithio â'r holl gynghorau yng Nghymru i archwilio cynlluniau iaith a chynghori ynghylch sut i'w gweithredu. Cyfrifoldeb cynghorau yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd sy'n amlinellu ei berfformiad o ran gweithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn rhoi ymateb ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach fel bo'r angen.

25 Adroddodd y Comisiynydd gynnydd yng nghynnwys a gwasanaethau ar-lein Cymraeg y wefan yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, ceir cryn gyfle i wella'r ddarpariaeth er mwyn cydymffurfio â'r cynllun iaith Gymraeg. Drwy agor siop un stop ym Mhontardawe, a darparu llinell switsfwrdd arbennig ar gyfer y Gymraeg, llwyddwyd i ehangu'r gwasanaeth sydd ar gael ar y rheng flaen. Datblygwyd gweithdrefn newydd ar gyfer cymeradwyo ceisiadau i fynychu hyfforddiant Cymraeg ar sail anghenion gwasanaethau, ac fe aeth dau aelod o'r staff ar gwrs hyfforddi yn ystod y flwyddyn. Mae angen datblygu hyfforddiant pellach o hyd er mwyn codi ymwybyddiaeth y staff ynghylch gofynion y cynllun iaith. Parhaodd y gwaith o fonitro darparwyr gofal cymdeithasol allanol yn ystod y flwyddyn. Gwelwyd cynnydd yn nifer y darparwyr sy'n cyflogi siaradwyr Cymraeg, ond mae'r nifer sy'n cynhyrchu deunydd darllen dwyieithog i gleientiaid yn parhau i fod yn isel. Mae Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor yn cyfrannu at y gost o gyflogi swyddog pobl ifanc y cynllun Menter Iaith lleol.

# Defnydd o adnoddau

## Archwiliad o gyfrifon y Cyngor

26 Ar 23 Tachwedd 2015, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Roedd y llythyr yn rhoi crynodeb o'r prif negeseuon a oedd yn deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig, a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan ddatgan eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Ceir hyd i'r Llythyr Archwilio Blynyddol yn Atodiad 4 yr adroddiad hwn.

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu a rheoli arian yn gadarn, ond mae angen datblygu cynlluniau arbed ar gyfer y tymor canolig, a'u hintegreiddio'n llawnach â'r broses cynllunio corfforaethol

27 Ym mis Ebrill 2016, cyhoeddwyd adroddiad gennym yn dilyn ein hasesiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio, rheolaeth a llywodraethu ariannol. Ein casgliad cyffredinol oedd bod y trefniadau'n gadarn, a gwnaed tri chynnig ar gyfer gwella, sy'n cael eu hystyried gan y Cyngor.

28 Mae gan y Cyngor hanes da o fantoli'r gyllideb neu o sicrhau gwarged, ac y mae'n llwyddo i gyflawni mwyafrif yr arbedion a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn. Cydnabyddir bod gan y Cyngor drefniadau cynllunio da ar gyfer y tymor byr, a'i fod fel arfer yn dechrau gwaith i lunio'r gyllideb flynyddol yn gynnar yn y flwyddyn ariannol, gan roi pwyslais ar y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, o ystyried mai £31.7 miliwn yw'r diffyg a amcangyfrifir mewn arbedion yn 2017-18 i 2019-20, mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio ar ei drefniadau cynllunio tymor canolig i dymor hwy. O wneud hynny, bydd modd iddo newid ar y raddfa a'r cyflymder angenrheidiol er mwyn canfod a chyflawni cynigion arbed yn y dyfodol.

29 Mae gan y Cyngor reolaethau ariannol digonol ar waith, a fframwaith clir ar gyfer rheoli ei faterion ariannol. Mae polisïau rheoli ariannol a chyllidebol wedi'u hymwreiddio yng Nghyfansoddiad y Cyngor, sy'n diffinio'n glir beth yw rolau a chyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor bolisi corfforaethol ffurfiol ar gyfer cynhyrchu incwm a chodi tâl, er mwyn llywio ymagwedd fwy masnachol at benderfyniadau ynghylch y gyllideb. Er mwyn helpu i wynebu heriau ariannol y dyfodol, dylai'r Cyngor sicrhau bod cyfarwyddiaethau yn defnyddio dull cyson o adolygu lefelau incwm a thaliadau wrth bennu cyllidebau.

30 Mae trefniadau llywodraethu ariannol y Cyngor yn cefnogi ei drefniadau cynllunio ariannol. Mae'r Cyngor yn dangos ymrwymiad i lywodraethu arian, ac yn gweithio gydag Aelodau Craffu i atgyfnerthu a gwella lefel y ddealltwriaeth ariannol. Mae gan y Cyngor Adran Gyllid brofiad, ac mae ganddo gapasiti a gallu digonol ar hyn o bryd i gyflawni ei gyfrifoldebau ariannol beunyddiol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen capasiti ychwanegol yn y tymor canolig, oherwydd graddfa a natur y cynigion arbed a chyflymder y broses o roi'r cynigion hynny ar waith. Mae'r Pennaeth Cyllid wedi bod yn gweithio gydag Aelodau Craffu i atgyfnerthu a gwella lefel y ddealltwriaeth ariannol.

31 Defnyddir adroddiadau monitro perfformiad ochr yn ochr ag adroddiadau monitro cyllidebau ariannol, ac fe geir tystiolaeth o ystyriaeth o effaith penderfyniadau ariannol ar berfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r mecanweithiau ar gyfer adrodd ar berfformiad ac adrodd ar arian wedi'u hintegreiddio eto, er mwyn gallu edrych yn rheolaidd ar berfformiad a chyllid yr awdurdod cyfan gyda'i gilydd. Er enghraifft, ar gyfer pob cyfarwyddiaeth, ystod a thuedd dangosyddion perfformiad a graddfa a chyflawniad targedau arbed ariannol. Bydd hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth glir o effaith penderfyniadau arianno ar berfformiad gwasanaethau o fewn y Cyngor.

## Mae perfformiad a'r gyfradd wella mewn addysg plant iau yn is na chyfartaledd Cymru, er bod canlyniadau'r rhai mewn ysgolion uwchradd yn llawer uwch na'r hyn a geir mewn awdurdodau tebyg, ac mae presenoldeb mewn ysgolion bellach yn gyson â chyfartaledd Cymru

32 Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghastell-nedd Port Talbot yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru. Ystyrir hyn wrth werthuso perfformiad o fewn yr awdurdod.

33 Yn yr ystod oedran pump i un ar ddeg oed, mae perfformiad yn llawer is na'r hyn a geir yn genedlaethol yn llawer o fesurau perfformiad allweddol. Er bod perfformiad wedi gwella dros amser, bu'r gwelliant hwnnw'n arafach na chyfartaledd Cymru.

34 Fodd bynnag, yn yr ystod oedran 14 i 16 oed, mae perfformiad disgyblion mewn Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg yn 2015 yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac yn llawer uwch na'r meincnod a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad. Ceir tuedd i ddeilliannau wella dros amser. Hefyd, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pum gradd A neu A* TGAU neu gyfwerth yn llawer uwch na mewn awdurdodau tebyg.

35 Yn 2015, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn well na chyfartaledd Cymru yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion ar gyfer y grŵp oedran dros 14 oed a thros 16 oed.

36 Mae presenoldeb wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sy'n golygu bod yr ysgolion cynradd ac uwchradd bellach yn gyson â chyfartaledd Cymru.

# Llywodraethu

## Mae'r Cyngor wedi cyflwyno newidiadau cadarnhaol i'r broses graffu, ac yn parhau i ganolbwyntio ar welliant parhaus

37 Yn ein Hasesiad Corfforaethol ym mis Tachwedd 2014, casglwyd nad oedd y pwyllgorau craffu yn effeithlon a'u bod yn canolbwyntio'n ormodol ar graffu cyn gwneud penderfyniadau, heb roi llawer o'u hamser i archwilio perfformiad a gwelliant.

38 Ers hynny, mae'r aelodau a'r swyddogion wedi bod yn gweithio i ddatrys y problemau hyn. Buom yn arsylwi cyfarfodydd craffu rhwng mis Ionawr a mis Mai 2015 er mwyn asesu'r datblygiadau a chanfod unrhyw gyfleoedd pellach i wella.

39 Gwelsom welliannau yn ansawdd a hygyrchedd yr wybodaeth ar wefan y Cyngor, lle'r oedd papurau, adroddiadau ac agendâu ar gael saith diwrnod cyn cyfarfodydd, gyda'u cynnwys wedi'i labelu'n gliriach. Roedd blaenraglenni gwaith hefyd wedi cael eu sefydlu ar gyfer pob Pwyllgor Craffu.

40 Fodd bynnag, gwelwyd agweddau hefyd lle gellid gwella effeithiolrwydd cyfarfodydd, drwy:

- a sicrhau bod gan swyddogion ac aelodau ddealltwriaeth glir o bwrpas, rolau a chyfrifoldebau Bwrdd y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu;
- b cyflwyno neu ddefnyddio cardiau enw/rôl i ddangos yn glir ai cynghorwyr, swyddogion, partneriaid, y wasg neu breswylwyr oedd y cyfranogwyr a phobl eraill a oedd yn bresennol;
- c esbonio mewn blaenraglenni gwaith pa elfennau penodol o'r gwasanaeth fydd yn destun craffu, fel 'gwastraff bwyd' neu 'wastraff ochr'; a
- ch thrafod a diweddaru blaenraglenni gwaith mewn cyfarfodydd pwyllgor.

## Mae'r Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i reoli'r graddau y mae'n agored i risg

41 Mabwysiadodd y Cyngor bolisi rheoli risg yn 2010, ond ni chafodd y polisi hwnnw ei weithredu'n effeithiol. Nodai'r Polisi rolau a chyfrifoldebau clir i unigolion allweddol, ee, 'bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod Cyfarwyddwr Corfforaethol yn sefydlu a chynnal systemau rheoli risg effeithiol ac yn sicrhau y cedwir at y trefniadau fel bo'n briodol' a, 'bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad y polisi'. Fodd bynnag, ni chafodd y polisi ei weithredu fel mater o drefn ar draws y sefydliad, ac ni chafodd cofrestr risg gorfforaethol erioed ei llunio.

42 Ym mis Gorffennaf 2015, mabwysiadodd y Cyngor Bolisi Rheoli Risg Corfforaethol sy'n ceisio symleiddio'r broses. Mae'r Cyngor wedi cael gwared â'r gofyniad i lenwi cofrestr risg electronig ac yn creu mwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau rheoli risg ar lefel arweiniol. Pennir rolau ar gyfer Timau Rheoli Cyfarwyddiaeth, ac ar lefelau uwch na hynny, mewn ymgais i greu awyrgylch a diwylliant lle caiff y broses o reoli risg ei hyrwyddo, ei hwyluso a'i chyflawni mewn modd priodol o fewn y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r polisi'n cyfleu'n glir sut y bydd y Cyngor yn dwyn swyddogion a chanddynt rolau a chyfrifoldebau'n gysylltiedig â risg i gyfrif. Nid yw'n cyfleu sut y caiff y broses o gyflawni rolau a chyfrifoldebau ei monitro, ac a fydd y rolau a'r cyfrifoldebau hyn wedi'u cynnwys mewn amcanion personol.

43 Mae templed cynllunio busnes blynyddol newydd y Cyngor yn cynnwys adran ar ddadansoddi risg ac ynddi fanylion am y risgiau wrth geisio cyflawni amcanion allweddol, a chynlluniau i liniaru'r risgiau hynny. Fodd bynnag, nid yw'r adran hon o'r templed wedi'i chwblhau'n foddhaol.

44 Ceir ansicrwydd ynghylch yr hyn y mae'r Cyngor yn ei gynnig er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r polisi newydd. Mae dwyn unigolion cyfrifol i gyfrif yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y Polisi diwygiedig yn cael ei roi ar waith mewn modd effeithiol, gan fod ein gwaith dadansoddi'n dangos mai dyma fu'r prif fethiant yn y gorffennol. Nodwyd rolau a chyfrifoldebau yn y polisi blaenorol, ond ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y rolau a'r cyfrifoldebau hynny'n cael eu cyflawni. Er bod y polisi newydd yn cyfeirio at gyfrifoldebau, nid oes disgrifiad o'r trefniadau i sicrhau y bydd uwch reolwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau mewn modd effeithiol.

45 Arweiniodd yr adolygiad at ddau gynnig ar gyfer gwella a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Ers yr adolygiad, rydym wedi gweld cynnydd o ran gweithredu'r cynigion, a gwaith pellach i fireinio ei drefniadau rheoli perfformiad, sy'n parhau.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Cwblhawyd y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad o welliant yn asesiad blaengar o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Y mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi crynodeb o'i waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdod ac i Weinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2015-16 Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

## Tystysgrif

Tystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur, ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a hynny i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio'i gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a
- gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn bodloni unrhyw safon perfformiad a osodwyd gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi, neu ar ôl dyddiad arall a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am yr wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, y mae'n ofynnol i mi gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, o dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, tystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf o'r farn fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

I ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, ar yr amod bod Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol, ei fod hefyd wedi cydymffurfio'n ddigonol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch cyflawnder na chywirdeb yr wybodaeth, nac ychwaith ynghylch a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Bydd gwaith asesu arall a gyflawnir gennyf o dan adran 18 o'r Mesur yn archwilio'r materion hyn. Roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor felly'n cynnwys adolygiad o'r cynllun er mwyn canfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ganfod yr holl wendidau a'r holl gyfleoedd ar gyfer gwella.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Leighton Andrews, Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Steve Barry, Rheolwr
Samantha Clements, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad 2014-15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

## Tystysgrif

Tystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2014-15, ar ôl ei gyhoeddiad ar 29ain Hydref 2015, yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8), a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad blynyddol sy'n disgrifio'i berfformiad:

- o ran cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- o ran cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u gosod iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad a osododd ar ei gyfer ei hun. ac
- wrth gyrraedd unrhyw safonau perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad a osododd ar ei gyfer ei hun.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall a allai gael ei bennu drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, y mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn canfod a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, tystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf o'r farn fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n unol â gofynion statudol a nodwyd yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

I ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, ar yr amod bod Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol, ei fod hefyd wedi cydymffurfio'n ddigonol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch cyflawnder na chywirdeb yr wybodaeth. Mae'n bosibl y bydd gwaith asesu arall a gyflawnir gennyf o dan adran 18 o'r Mesur yn archwilio'r materion hyn. Roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor felly'n cynnwys adolygiad o gyhoeddiad y Cyngor er mwyn canfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ganfod yr holl wendidau a'r holl gyfleoedd ar gyfer gwella.

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

COPI I: Leighton Andrews, Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Steve Barry, Rheolwr
Samantha Clements, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot 2014-15

Y Cynghorydd AH Thomas
Yr Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Y Ganolfan Ddinesig
Port Talbot
SA13 1PJ

Annwyl Gynghorydd Thomas

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau'n gysylltiedig ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chynnal adolygiad parhaus o drefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 29 Medi 2015 cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Adroddwyd y prif faterion oedd yn deillio o'r archwiliad y gyfrifon wrth aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar fy Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 24 Medi 2015, ac mae adroddiad manylach hefyd wedi cael ei gyflwyno i'r swyddogion.

Canfuwyd bod y Cyngor wedi parhau i fireinio ei brosesau cau, gan adeiladu ar y gwelliannau sylweddol a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf, er bod angen gwneud gwaith o hyd yn gysylltiedig â chau'r cyfrifon cyfalaf. Adroddais hefyd fod angen tystiolaeth gliriach o unrhyw daliadau setlo a wneir y tu allan i'r fframwaith diswyddo gwirfoddol/ymddeoliad cynnar arferol.

## Yr wyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol, er fy mod wedi nodi meysydd i'w gwella

Seiliwyd fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar y gwaith archwilio cyfrifon a gyflawnwyd. Dibynnwyd hefyd ar waith a gwblhawyd yn rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ar y cyfan, rwyf yn fodlon nad oes unrhyw faterion a fyddai'n effeithio ar y farn archwilio ddiamod a roddwyd ar ddatganiad cyfrifon 2014-15, ond gellir sicrhau gwelliant mewn rhai meysydd. Casgliad fy Adroddiad Gwella Blynyddol a'm Hasesiad Corfforaethol 2014 oedd bod y Cyngor wedi bod yn cyflawni ei flaenoriaethau allweddol, ond bod cyfyngiadau ar drefniadau llywodraethu a gwerthuso perfformiad yn peryglu ei allu i barhau i wneud cynnydd yn y dyfodol. Mewn gwaith dilynol a gyflawnwyd ar reoli perfformiad a rheoli risg yn 2015, nodwyd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth weithredu'r fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol newydd, er bod angen ymwreiddio'r polisi hwnnw'n llawn yng nghynlluniau busnes gwasanaethau, ond mae angen gwneud llawer o waith er mwyn sicrhau bod y graddau y mae'r Cyngor yn agored i risg yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i fynd ar drywydd y materion a oedd yn weddill a nodwyd yn adroddiad y llynedd. Adroddir ar y gwaith hwn yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2015 yn y Flwyddyn Newydd. Mae'n hanfodol i'r Cyngor ymdrin ag unrhyw faterion a godir er mwyn iddo allu perfformio'n well.

Wrth symud ymlaen, ceir goblygiadau sylweddol o hyd yn gysylltiedig â'r sefyllfa ariannol hynod heriol a wynebir gan yr holl gyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Yn yr adroddiad a bennai ei gyllideb ar gyfer 2015-16, adroddodd y Cyngor fwlch cyllidebol o £50 miliwn ar gyfer y cyfnod 2016-2020, a bydd angen sicrhau £18 miliwn o'r arbedion hyn yn 2015-16.

Hyd yma, mae'r Cyngor wedi mynd ati'n rhagweithiol i reoli ei fwlch ariannu cynyddol. Y mae wedi cydnabod bod angen iddo ystyried newidiadau sylfaenol a mwy hirdymor i'r modd y mae'n gweithredu ac yn cyflenwi ei wasanaethau, ac yn gwerthfawrogi y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd. Mae'n bwysig bod swyddogion ac Aelodau'n monitro'r Blaengynllun Ariannol yn agos, a bod cysylltiadau clir yn cael eu creu rhyngddo ac arbedion cyfarwyddiaethau, cynlluniau cyflenwi gwasanaeth ac ati, gan ymdrin ag unrhyw lithriant yn gyflym ac effeithiol er mwyn cyflawni'r targedau arbed sylweddol hyn.

**Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2015.**

## Yng ngwaith blynyddoedd blaenorol ar ardystio ffurflenni a hawliadau grant, nodwyd meysydd i'w gwella, yr wyf yn disgwyl iddynt fod wedi'u gweithredu erbyn archwiliad grantiau 2014-15

Rwyf wedi bod yn adrodd er sawl blwyddyn fod angen gwella'r prosesau ar waith ar gyfer rheoli a llunio hawliadau grant. Mae swyddogion wedi rhoi prosesau ar waith, ond ni chedwir at y prosesau hyn bob tro. Mae fy archwiliad o grantiau'r Cyngor ar gyfer 2014-15 bellach wedi dechrau, ac rwyf yn rhagweld y bydd prosesau gwell ar waith. Byddaf yn adrodd ar ganlyniad y gwaith hwn yn y Flwyddyn Newydd ar ôl cwblhau'r gwaith.

Mae'r ffi archwilio ariannol yn unol â'r ffi a gytunwyd ac a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2015.

Yn gywir

Richard Harries
Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

23 Tachwedd 2015

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru